



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig 1997 (O.S. 1997/757) o ran Cymru.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn nhestun Cymraeg erthygl 1(1), mae teitl y Gorchymyn yn cynnwys 2005 yn hytrach na 2006. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae erthygl 2(1) yn diffinio "y Cynulliad Cenedlaethol" fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, dylid defnyddio'r term a ddiffiniwyd drwy'r Gorchymyn cyfan yn lle'r teitl llawn, ac eithrio yn y diffiniad hwnnw. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn erthygl 2(1), mae'r diffiniad o "suspected animal" [anifail dan amheuaeth] yn cyfeirio at "swollen, painless lymph nodes or tumorous changes". Yn y testun Saesneg, nid yw'n eglur a yw'r geiriau "swollen" [chwyddedig] a "painless" [di-boen] yn cyfeirio at "lymph nodes" [nodau lymff] yn unig neu i "tumorous changes" [newidiadau tiwmorol] hefyd. Mae'r testun Cymraeg yn awgrymu'r olaf. [Rheol

Sefydlog 11.7(v)]

Mae erthygl 2(2) yn estyn diffiniad "disease" yn adran 88(1) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Mae'r pwr i wneud hynny yn adran 88(2) y Ddeddf, ac felly dylid ei ychwanegu i'r pwerau a enwyd yn y rhaglith i'r Gorchymyn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn erthygl 7(2)(a), defnyddir iaith rhyw benodol ("his"). [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mewn sawl man yn y Gorchymyn, yn cynnwys erthygl 7(2), defnyddir y gair "will" yn Saesneg tra bo'r Gymraeg yn defnyddio'r gair "rhaid". Dim ond wrth ddisgrifio canlyniad y mae "will" yn briodol mewn deddfwriaeth. Dylid defnyddio "must" yn lle "will" lle y defnyddiwyd "rhaid" yn gywir yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7 (v a vi)]

Yn rheoliad 11(1), defnyddir yr ymadrodd "such an animal" [anifail o'r fath] ddwywaith yn y testun Saesneg, tra bo'r Gymraeg yn defnyddio "yr anifail hwnnw" [that animal]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn rheoliad 11(3), defnyddir yr ymadrodd "enter the premises" [mynd i mewn i'r fangre] (fel yn 15(1)) ddwywaith yn y testun Saesneg, tra bo'r Gymraeg yn defnyddio "mynd i'r fangre" [go to the premises]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Gwallau drafftio neu deipograffyddol bach yw'r rhain a gellir eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Tynnwyd sylw'r cyfreithiwr drafftio at fân bwyntiau drafftio sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

7 Mawrth 2006